*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16/07/2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Rheolwr Cynllunio Corfforaethol** |
| Pwnc | **Ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2018** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. Rhoi crynodeb o'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag ymgynghoriad cyhoeddus Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sydd ar y gweill ynghylch ei fwriadau o ran gosod y gyllideb ar gyfer 2019/20.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud i baratoi deunyddiau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus dros yr haf. Bydd gwybodaeth bellach am y cynnydd yn cael ei darparu yn y cyfarfod.

## ARGYMHELLION

3. Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth ychwanegol a fydd yn cael ei darparu yn y cyfarfod.

## CEFNDIR

4. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i weithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".

5. Mae'r Ddeddf hefyd yn ceisio darparu ar gyfer dulliau gwell o wneud penderfyniadau mewn cyrff cyhoeddus drwy sicrhau eu bod nhw'n gwneud y canlynol: ystyried y tymor hir; canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu; cael dull integredig a chydweithredol; ac ystyried a chynnwys amrywiaeth eang o bobl wrth ddylunio a chynllunio gwasanaethau.

6. Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu dau amcan llesiant tymor hir, sef:

A. Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os ydyn nhw'n digwydd; a
B. Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel y gall gweithgareddau ataliol ac ymateb brys barhau i fod ar gael, a hynny pryd a lle mae eu hangen, yn fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg.

7. I gefnogi'r amcanion hyn, fe wnaeth Gweithgor Cynllunio'r Awdurdod waith manwl ddechrau 2018 i gychwyn ar y broses o ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod ar gyfer 2019/20.

8. Roedd y gwaith hwnnw, o raid, yn canolbwyntio ar ragweld diffyg o £1,893,000 yng nghyllideb yr Awdurdod yn 2019/20. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa fod y diffyg gan mwyaf wedi digwydd oherwydd penderfyniadau yn y gorffennol i ofyn am gyfraniadau ariannol gan yr awdurdodau cyfansoddol nad oedd yn ddigon i ariannu gwir gost darparu gwasanaethau tân ac achub, a dibynnu ar gronfeydd ariannol wrth gefn yr Awdurdod i sicrhau cyllideb fantoledig.

9. Ar ôl mynd ati'n ffurfiol i ystyried y dewisiadau a oedd ar gael, penderfynodd yr aelodau ymgynghori'n gyhoeddus ynglŷn â'r cwestiwn a ddylid cael cyllideb fantoledig yn 2019/20 drwy gynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol i dalu holl gost darparu gwasanaethau tân ac achub, ynteu fymryn yn llai na'r swm hwnnw.

10. Roedd yr aelodau'n cydnabod y byddai unrhyw swm llai na £1,893,000 yn siŵr o olygu gwneud arbedion ond nid oeddent yn bwriadu dilyn strategaeth a fyddai'n gofyn am arbedion mor fawr fel y byddai angen, er enghraifft, cau gorsafoedd neu ddiswyddo diffoddwyr tân. Bydd y rhesymeg dros hyn yn cael ei egluro yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**GWYBODAETH**

11. Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 14 Mai 2018 fe wnaeth yr aelodau gefnogi strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, sy'n cynnwys:
- dadansoddiad o'r rhanddeiliaid er mwyn nodi pwy i ymgysylltu â nhw ac i helpu i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o ymgysylltu â'r bobl dan sylw;
- mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i annog rhanddeiliaid i gyfranogi ac ymateb;
- mabwysiadu dulliau sy'n annog ymatebion ansoddol a meintiol;
- osgoi iaith sy'n anodd i'w deall, gan esbonio'n glir ac osgoi gor-gymhlethu.

12. Mae'r rhestrau postio'n cael eu diweddaru, ac mae dogfen ymgynghori a thaflen gryno haws i'w darllen, fideo dwyieithog a holiadur ar-lein wrthi'n cael eu paratoi.

13. Bydd y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ymestyn i gynnwys dangos y ffordd at yr holiadur ar-lein.

14. Mae cyflwyniadau a chyfarfodydd wrthi'n cael eu trefnu hefyd fel y gall swyddogion drafod strategaeth arfaethedig yr Awdurdod yn fwy manwl.

15. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod yn yr hydref, a bydd yn cael ei ystyried wrth osod y gyllideb ar gyfer 2019/20 yn Rhagfyr 2018 ac wrth baratoi'r Cynllun Gwella a Llesiant ar gyfer 2019/20 i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2019.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae sicrhau cyllideb fantoledig yn cyd-fynd â ffforddiadwyedd y gwaith ataliol a'r ymateb brys (rhan o ail amcan llesiant yr Awdurdod). |
| Cyllideb | Bydd allbwn yr ymgynghoriad yn cael ei ystyried wrth osod y gyllideb ar gyfer 2019/20. |
| Cyfreithiol | Rhaid i'r Awdurdod osod amcanion gwella a llesiant, a chyllideb fantoledig. Mae disgwyl iddo hefyd ymgynghori'n eang ynghylch ei gamau arfaethedig tra mae ei gynlluniau yn dal wrthi'n cael eu ffurfio. |
| Staffio | Dim effaith uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i unrhyw un sydd â diddordeb allu cyfrannu. Bydd cwestiynau penodol am agweddau penodol (e.e. cyfleoedd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg) yn cael eu cynnwys. |
| Risgiau | Byddai methu ag ymgynghori yn unol ag Egwyddorion Gunning yn golygu risg o her gyfreithiol. |